# GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (CYLCHFAN PONT LESNEVEN I TRAVELLERS REST, CAERFYRDDIN, SIR GAERFYRDDIN) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, wrth drosbont Tre Ioan, Caerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o naill ai 30 mya neu 40 mya ar y darnau o gefnffordd yr A40 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Medi 2021. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau dros dro yn weithredol o 06:00 o'r gloch ar 1 Medi 2021 tan 20:00 o'r gloch ar 1 Hydref 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod mewn grym. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN
**Terfyn cyflymder 30 mya neu 40 mya dros dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Lesneven hyd at bwynt 1.70 cilometr i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

# THE A40 TRUNK ROAD (PONT LESNEVEN ROUNDABOUT TO TRAVELLERS REST, CARMARTHEN, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Johnstown over-bridge, Carmarthen.

The effect of the Order is to temporarily impose either a 30 mph or 40 mph speed limit on the lengths of the A40 trunk road described in the Schedule to this Notice.

The Order comes into force on 1 September 2021. The temporary restrictions are expected to operate from 06:00 hours on 1 September 2021 until 20:00 hours on 1 October 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## SCHEDULE
**Temporary 30 mph or 40 mph speed limit**

The length of the trunk road that extends from its junction with the western side of the main circulatory carriageway of Pont Lesneven Roundabout to a point 1.70 kilometres west of that junction.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A40 Heol Llansteffan sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau o'i chyffordd â'r B4312 Heol Llansteffan hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain yr A40.

The length of the A40 Llanstephan Road eastbound entry slip road that extends from a point 75 metres from its junction with the B4312 Llanstephan Road to its junction with the main A40 eastbound carriageway.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A40 Heol Llansteffan sy'n ymestyn o bwynt 215 o fetrau o'i chyffordd â'r B4312 Heol Llansteffan hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr A40.

The length of the A40 Llanstephan Road westbound entry slip road that extends from a point 215 metres from its junction with the B4312 Llanstephan Road to its junction with the main A40 westbound carriageway.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A40 Heol Llansteffan sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr A40 hyd at bwynt 165 o fetrau o'i chyffordd â'r B4312 Heol Llansteffan.

The length of the A40 Llanstephan Road westbound exit slip road that extends from its junction with the main A40 westbound carriageway to a point 165 metres from its junction with the B4312 Llanstephan Road.